Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Sophie Williams**

**Amlwch**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

21/01/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma oedd yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei gofrestru ar 1 Chwefror 2019. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Yr Amgylchedd** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Nid oes angen sgôr** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

***Mae hwn yn arolygiad a gynhaliwyd yn ystod y pandemig COVID-19,felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.***

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt gydberthynas gynnes gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth ac yn hyderus i gyfleu eu hanghenion. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n glên ac yn cefnogi plant mewn modd cynnes a chadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle, teganau ac adnoddau yn addas ar gyfer y plant a bod unrhyw risgiau posibl yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'n rheoli ei gwasanaeth yn briodol ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cadw'n gyfredol a bod rhieni yn cael eu hysbysu'n dda am ddatblygiad eu plentyn ac o unrhyw newidiadau i'r lleoliad.

| Llesiant | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn mynegi eu hunain yn hyderus. Gallant wneud dewisiadau ynglŷn â sut maent yn treulio'u hamser. Mae amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau wedi'u storio o fewn cyrraedd y plant fel y gallant ddefnyddio'r teganau maent eu heisiau yn annibynnol.

Mae'r plant wedi ffurfio cydberthynas gynnes gyda'r gwarchodwr plant a'i gilydd. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, roeddent yn hapus i siarad â ni a dweud wrthym am y pethau roeddent yn mwynhau eu gwneud. Maent yn gyfforddus wrth roi gwybod i'r gwarchodwr plant am yr hyn y maent ei eisiau ac wrth ofyn am gymorth pan fydd ei angen. Er enghraifft, wrth ddod â'r bwrdd crefftau i'r lolfa fel y gallant greu rhywfaint o waith celf ac wrth ofyn i'r gwarchodwr plant ddarllen stori iddynt.

Mae'r plant yn rhannu adnoddau ac yn chwarae ymysg ei gilydd yn dda. Maent yn hapus i sgwrsio â'r gwarchodwr plant am yr hyn y maent yn ei wneud ac yn awyddus i'w chynnwys yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth ffugio i wneud bwyd yn y gegin chwarae, roeddent yn awyddus i gynnwys y gwarchodwr plant a gofyn beth fyddai hi'n ei hoffi am ginio. Mae'r plant hefyd yn mwynhau treulio cyfnodau tawel yn ymlacio ar y soffa yn edrych ar lyfrau ac yn cael y rhyddid i ddod i ymuno â gweithgareddau ar eu cyflymder eu hunain.

Mae gan y plant ystod dda o brofiadau ac maent yn gallu treulio amser yn yr awyr agored. Maent yn cael teithiau cerdded rheolaidd i feysydd chwarae lleol, grwpiau chwarae a gweithgareddau plant bach yn y llyfrgell leol, lle mae ganddynt gyfleoedd i ddatblygu yn gorfforol ac yn gymdeithasol. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, megis tacluso ar ddiwedd gweithgareddau, bwydo eu hunain, a gwisgo eu hesgidiau a chotiau eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i ennill hyder ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth.

**Gofal a Datblygiad** **Nid oes angen sgôr**

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddi bolisi diogelu priodol ar waith, mae wedi cwblhau hyfforddiant diogelu, ac mae’n gyfarwydd â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn os oes ganddi unrhyw bryderon ynglŷn â phlentyn yn ei gofal. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac yn cofnodi pob damwain a digwyddiad yn gywir. Mae'n sicrhau bod gwiriadau diogelwch rheolaidd yn digwydd, megis gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Caiff ymarferion tân eu cwblhau yn aml a'u cofnodi yn ei dyddiadur. Fodd bynnag, dylai'r gwarchodwr plant ystyried cynnwys mwy o fanylder yn ei chofnodion ymarferion tân.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion iach a digon o ddiod trwy ddarparu plant â mynediad at ddŵr drwy gydol y dydd. Mae'n sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo pan fydd yn briodol, megis wrth gyrraedd y lleoliad, ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta, gan hyrwyddo hylendid da.

Mae'r gwarchodwr plant wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda'r plant. Mae'n glên a chyfeillgar ac yn delio ag unrhyw ymddygiad annymunol yn ddigyffro ac yn deg. Mae'n defnyddio dulliau cadarnhaol i ailgyfeirio plant os ydynt yn dechrau dangos unrhyw ymddygiad annerbyniol yn unol â'i pholisi rheoli ymddygiad. Er enghraifft, drwy roi cyfarwyddiadau eglur i blant ac egluro'n glir pam. Mae'n defnyddio technegau tynnu sylw cadarnhaol ac yn ailgyfeirio plant os ydynt yn dechrau ymddwyn yn amhriodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio ystod o weithgareddau sy'n ddiddorol ac sy'n helpu plant i ddysgu a datblygu eu sgiliau. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn casglu gwybodaeth am eu hanghenion unigol cyn i'r plant fynychu'r lleoliad. Caiff cofnod o gynnydd y plant ei gadw trwy goladu samplau o'u gwaith a chreu llyfr ar ddiwedd bob blwyddyn a anfonir adref at y rhieni. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni ynglŷn â chynnydd eu plentyn a gwybodaeth bwysig am eu hamser yn y lleoliad drwy anfon gwybodaeth a lluniau rheolaidd drwy negeseuon ar-lein diogel unigol.

## Yr Amgylchedd — Nid oes angen sgôr

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a diogel ar gyfer plant. Mae asesiadau risg manwl ar waith yn amlinellu'r peryglon posibl i blant a'r mesurau a roddwyd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae yna asesiad risg a pholisi ar wahân mewn grym hefyd sy'n amlinellu gweithdrefnau ychwanegol y gwarchodwr plant i atal lledaeniad posibl COVID-19. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn adolygu pob asesiad risg yn rheolaidd, ond ni chofnodir y dyddiad y cânt eu hadolygu. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod cywir o ymwelwyr i'r safle a hefyd yn nodi pa blant sy'n bresennol bob dydd, ond ni chofnodir amseroedd cyrraedd a gadael.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn darparu ystod dda o deganau ac adnoddau ar gyfer plant i ddewis ohonynt, gan gynnwys doliau, cerbydau tegan, teganau adeiladu, deunyddiau celf a chrefft, a gweithgareddau chwarae rôl. Mae teganau a gemau wedi'u trefnu'n dda a'u storio mewn blychau sy'n cael eu cadw ar lefel isel fel y gall plant eu cyrraedd yn annibynnol. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cynnig man priodol i'r plant chwarae a chwilota ynddo. Mae yna sleid, blwch tywod a detholiad o deganau i'w gyrru ar gyfer plant i ddatblygu eu sgiliau corfforol.

Mae gan y gwarchodwr plant ystod o offer i gynorthwyo sgiliau annibyniaeth plant ieuengach. Er enghraifft, mae ganddi seddi a grisiau toiled i blant bach yn yr ystafell ymolchi fel y gall y plant ddefnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn glanhau'r teganau ar ddiwedd bob dydd, ac yn glanhau'n drylwyr bob wythnos, a oedd hefyd wedi'i gofnodi yn ei dyddiadur.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gadarn o'i rôl a chyfrifoldebau rheoliadol ac mae'n darparu ystod o bolisïau i'w galluogi i redeg ei gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r polisïau hyn yn glir a gwybodus ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, er na chofnodir y dyddiad y cânt eu hadolygu. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad eglur a chywir o'r gwasanaeth a gynigir, gan ddarparu rhieni â digon o wybodaeth i wneud dewis gwybodus. Mae'r ddogfen hefyd yn adlewyrchu'r gweithdrefnau newydd a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig COVID-19, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni ynglŷn â newidiadau.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth yn rheolaidd gan rieni a phlant ac yn amlinellu gwelliannau arfaethedig o fewn adroddiad adolygu blynyddol ar ansawdd y gofal. Roedd hyn yn cynnwys y gwelliannau a wnaed hyd yn hyn a'r rhai a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol ac roedd yn darparu adroddiad eglur o’r ffordd roedd y gwarchodwr plant yn ymateb i unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hi a rhai aelodau o'r aelwyd yn gyfredol. Dangosodd cofnodion a ddarparwyd fod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol am y plant cyn iddynt fynychu. Mae hyn yn ei chaniatáu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol y plant. Caiff rhieni eu darparu â chopi o holl bolisïau'r gwasanaeth, y gofynnir iddynt ei lofnodi i ddangos eu dealltwriaeth a chytundeb. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn gofyn i rieni lofnodi slipiau caniatâd ar gyfer eu plant er mwyn iddynt gymryd rhan mewn teithiau a gweithgareddau yn ystod y pandemig COVID-19, yn ogystal ar gyfer tynnu lluniau a rhoi cymorth cyntaf.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cynnwys mwy o fanylder yn y cofnodion ymarfer tân.

A1. Cynnwys mwy o fanylder yn y cofnodion ymarfer tân.

A2. Cynnwys amseroedd cyrraedd a gadael cywir ar gofnodion presenoldeb y plant.

A3. Cofnodi'r dyddiadau y caiff polisïau ac asesiadau risg eu hadolygu.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 28/02/2022